ADRODDIAD CYFARWYDDWR COMISIWN COEDWIGAETH CYMRU – GORFFENNAF 2010

COETIROEDD A CHOED YNG NGHYMRU

Dadl Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru

1. Cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddadl fer ym mis Mai i gefnogi'r Cynllun Gweithredu Strategaeth Goetir a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Cydnabu'r Cynulliad y manteision y mae coetiroedd yn eu rhoi i bobl Cymru ac mae'n cefnogi'r camau a nodir yn y Cynllun Gweithredu. Tynnodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig sylw at y camau i gefnogi ei Hadran a'r rheini sy'n cyfrannu at feysydd eraill o waith Llywodraeth y Cynulliad megis addysg, iechyd, adfywiad economaidd a newid yn yr hinsawdd. Canolbwyntiodd y ddadl ar gyhoeddiad diweddar gan y Gweinidog ei bod yn bwriadu creu 100,000 hectar o goetir newydd yng Nghymru dros yr ugain mlynedd nesaf. Pleidleisiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru o 36 pleidlais i 0 i gefnogi Cynllun Gweithredu'r Llywodraeth, gyda 9 AC Ceidwadol yn ymatal.

YMATEB I NEWID YN YR HINSAWDD

Cynaeafu a Marchnata - *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

2. Hyd at ddiwedd Mehefin 2010 rydym wedi cynaeafu 220k metr ciwbig o bren, sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer ein rhaglenni llwyrgwympo a theneuo ac yn unol â'r bwriad i werthu 790k metr ciwbig yn flynyddol. Mae'r galw am bren yn dda ar gyfer ein holl gynhyrchion, er bod yr holl felinau lifio (ac eithrio'r sector Biomàs) yn dal i adrodd taw'r bunt wan barhaus a'r lefel isel o ddefnydd sy'n cael ei fewnforio yw'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y galw am bren crwn. Mae galw'r farchnad am gynnyrch gorffenedig yn dal i fod yn gystadleuol ac mae'n rhaid i'r melinau weithio'n galed i gynnal gwerthiannau ar lefel dderbyniol.

3. Yn ystod ein harwerthiant tendrau electronig cyntaf o'r flwyddyn ariannol newydd ym mis Mai 2010, roedd 63k o fetrau ciwbig o bren ar werth. Roedd yr arwerthiant yn llwyddiannus a gwerthwyd pob un o'r 48 lot. Mae galw'r farchnad am bren o ystâd goetir Llywodraeth y Cynulliad yn dal i fod yn gryf, ynghyd a gweithgaredd cyfyngedig gan y sector preifat.

4. Bellach amcangyfrifir bod 150k o fetrau ciwbig o bren mewn cellïoedd llarwydd wedi'i heintio â *Phytophthora ramorum*. Mae cynllunio ar y gweill i weld faint o'r defnydd hwn y gellid ei gynnwys yn y cynllun gwerthu cyfredol a faint fydd ei angen yn fwy na'r rhaglen sy'n bodoli. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu y gallai fod yn anodd amnewid mwy na 40% yn y rhaglen sy'n bodoli. Mae'n bosibl taw cyfle cyfyngedig fydd ar gael i farchnata'r gweddill fel defnydd sy'n ychwanegol i'r

rhaglen oherwydd y farchnad gyfyngedig ar gyfer llarwydd Siapaneaidd ac am nad yw proseswyr pren yng Nghymru wedi cael eu trwyddedu eto i brosesu pren heintiedig. Fel canlyniad, gall na fyddwn yn gallu marchnata'r holl ddefnydd eleni. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n chwilio am ffyrdd i ddatrys hyn.

Creu Coetiroedd – *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

5. Mae'r prosiect i wneud yn siŵr fod Coetiroedd Gwell i Gymru yn cyd-daro â dechrau darparu targed creu coetiroedd y Gweinidog ar waith. Cytunwyd ynglŷn â chyfraddau grant diwygiedig a chawsant eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd er mwyn eu cymeradwyo. Er mwyn osgoi unrhyw oedi o ran cyflwyno ceisiadau, rydym wedi cytuno y gall yr holl brosiectau creu coetiroedd sy'n cael eu cyflawni o 2010/11 ymlaen gael eu talu yn ôl y gyfradd uwch. Mae tîm y prosiect wedi cyfarfod â sawl rhanddeiliad er mwyn elwa ar eu profiad o weithio gyda ffermwyr ac mae'n edrych ymlaen at weithio ar y cyd i hyrwyddo manteision coetiroedd ar ffermydd. Rydym ar fin dod i gytundeb â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer cynhyrchu mapiau strategol lle na fydd angen ymgynghori ar sail safle ar gyfer coetiroedd brodorol a chymysg, a bydd hynny'n golygu llai o fiwrocratiaeth i bawb.

Coetiroedd Gwell i Gymru – *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

6. Mae nifer yr achosion o Goetiroedd Gwell i Gymru a gafodd eu cymeradwyo erbyn hyn yn berthynol i 31,435 ha a chafodd 288 ha o goed collddail newydd eu cymeradwyo. Bydd rhai o'r coetiroedd newydd hyn yn cael eu creu yn ardal strategol Blaenau'r Cymoedd a byddant o fudd i'r dirwedd, yn darparu mynediad i'r cyhoedd ac yn cysylltu cynefinoedd bywyd gwyllt.

7. Dros y mis diwethaf rydym wedi derbyn 12 adroddiad o gwympo anghyfreithlon ac rydym wedi cyflwyno tri Hysbysiad Ailblannu a dau lythyr o rybudd. Fel rhan o'r ymdrech i fynd i'r afael â chwympo anghyfreithlon, mae fy nhîm Grantiau a Rheoliadau wrthi'n cynhyrchu taflen sylfaenol sy'n amlinellu'r gyfraith ynglŷn â chwympo coed. Mae'r daflen wedi'i hanelu at sefydliadau adeiladu ac awdurdodau lleol. Bydd staff Grantiau a Rheoliadau'n archwilio'r holl drwyddedau cwympo ac achosion Coetiroedd Gwell i Gymru cyn cymeradwyo'r achos/cais i lwyrgwympo neu deneuo llarwydd sy'n dioddef o *Phytophthora ramorum*.

Grantiau i Berchnogion Anamaethyddol – *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

8. Mae gwerthusiad trylwyr o Goetiroedd Gwell i Gymru wedi dangos fod y cynllun wedi llwyddo wrth gynorthwyo i ddarparu rhai manteision i'r cyhoedd gyda pherchnogion coetiroedd preifat anamaethyddol. Bydd gwneud cymorth i goetiroedd yn rhan o Glastir yn golygu dewisiadau newydd ar gyfer coetiroedd. Bydd y rhain, ynghyd ag Elfennau Targedig Glastir, yn cael eu lansio ar 1 Ionawr 2013 . Bydd

mynediad uniongyrchol i elfennau coetir gan berchnogion coetiroedd yn unig neu ffermwyr nad ydynt yn rhan o Elfen Cymru Gyfan Glastir. A bydd amrediad o grantiau ar gael er mwyn prynu canlyniadau a fydd yn helpu i ddarparu *Coetiroedd i Gymru*.

Seminar Adroddiad Read - *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

9. Trefnodd Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Forest Research seminar ar y cyd ym mis Mai yn Llandrindod er mwyn cyflwyno canfyddiadau Adroddiad Read i gynulleidfa o ymarferwyr preifat a Chomisiwn Coedwigaeth. Daeth dros gant o bobl i'r seminar a rhoddwyd derbyniad da dros ben i'r cyflwyniadau gan y chwe gwyddonydd o Forest Research.

Phytophthora ramorum - *Rhaglen 2: Diogelu coed a gofalu am eu hiechyd*

10. Cafwyd hyd i'r heintiad, a gafodd ei gadarnhau gan brofion labordy, ar Ystâd Coetir Llywodraeth y Cynulliad ar waelod Cwm Afan ac yng Nghwm Garw yn y De. Cafodd Comisiwn Coedwigaeth Cymru gyfarwyddiadau gan Wasanaeth Iechyd Planhigion y Comisiwn Coedwigaeth o dan Orchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005 i gwympo'r ardaloedd heintiedig a nodwyd ac mae hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Dim ond mewn coetiroedd cyhoeddus y cafodd *Phytophthora ramorum ei gadarnhau*, ond os caiff ei ddarganfod mewn coetiroedd preifat, bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn defnyddio'i bwerau rheolaethol ar gyfer Prydain gyfan i orfodi perchnogion i gwympo coed wedi'u heintio. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth newydd gyhoeddi cronfa gwerth £600k i gynorthwyo perchnogion coetiroedd i reoli achosion o'r haint. Mae Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd, Comisiwn Coedwigaeth Lloegr a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru'n cydweithio'n agos er mwyn rheoli'r clefyd trwy gydgysylltu strategaeth a gweithredu.

11. Mae coetiroedd cyhoeddus a phreifat yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd a gall y bydd syrfewyr yn cysylltu â thirfeddianwyr preifat er mwyn cael mynediad.

12. Rydym wedi dechrau'r broses o ymweld â melinau yng Nghymru a allai fod â diddordeb mewn cael trwydded i dderbyn a phrosesu defnydd heintiedig yn y dyfodol. Cyn bo hir byddwn yn cychwyn trafodaethau â sefydliadau masnach er mwyn cytuno ar seminar briffio masnach (yn debygol o ddigwydd ddechrau Medi) i ddatblygu strategaeth farchnata briodol.

Rhaglen Ynni Gwynt - *Rhaglen 3: Ynni Adnewyddadwy*

13. Mae'r gweithgaredd ar draws pump o'r chwe Phrosiect Ardal Chwilio Strategol yn dwysau. Yn Ardal Chwilio Strategol-F (Pen-y-Cymoedd) yn y De, mae'r Deiliad Opsiwn yn dal i fireinio'r Cynllun Rheoli mewn ymateb i'r Gwrthwynebiad Cynllunio

a gyflwynwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Rydym yn gweithio'n agos â'r Deiliad Opsiwn mewn ymateb i Wrthwynebiad Cynllunio pellach a gafwyd gan yr Awdurdod Lleol ar sail effaith economaidd lleol oherwydd cau prif lwybr seiclo. Unwaith y bydd y gwrthwynebiadau hyn wedi cael sylw bydd y Deiliad Opsiwn yn gallu anfon ymateb ffurfiol i'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Rydym yn cadw llygad agos ar werthiant y Deiliad Opsiwn gan ei gwmni daliannol presennol er mwyn gwneud yn siŵr fod buddiannau Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u diogelu'n llwyr.

14. Dechreuwyd ar ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer Prosiect Ardal Chwilio Strategol-D (Nant-y-moch). Y prif fater yw'r cais am fynediad ychwanegol yn Nantyrarian, yn benodol ar gyfer llwythi anarferol o fawr. Rydym yn benderfynol o wneud yn siŵr fod gwerth masnachol y mynediad ychwanegol hwn yn cael ei gydnabod. Felly, ni allodd y Deiliad Opsiwn, yn ystod y broses ymgynghorol, gynnwys datganiad terfynol ynglŷn â mynediad.

COETIROEDD I BOBL

Bwlch Nantyrarian – *Rhaglen 5: Hamdden a Mynediad*

15. Erbyn hyn mae Caffi'r Ganolfan Ymwelwyr yn cael ei reoli gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Digwyddodd y newid yn ddi-dor o ran gwasanaeth i gwsmeriaid, ac ni chafwyd unrhyw gyhoeddusrwydd gwael. Rhoddwyd cymorth ychwanegol gan y staff sy'n bodoli, a wirfoddolodd i gynorthwyo yn ystod un o gyfnodau prysuraf y flwyddyn, gan arddangos ymdrech ardderchog o ran gwaith tîm a sylw i gwsmeriaid, a bu hyn yn fodd i ddiogelu enw da Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru - *Rhaglen 5: Hamdden a Mynediad*

16. Y thema ar gyfer 2010 yw Newid yn yr Hinsawdd, sy'n dangos sut mae coed yn chwarae rhan hollbwysig yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd trwy gynnig gweithgareddau rhyngweithiol ym mhabell fawr Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Bydd fy nhîm Grantiau a Rheoliadau ym mhabell fawr y Cynulliad lle bydd yn hyrwyddo'r amrediad o gynlluniau a phrosiectau grant y mae'n gyfrifol am eu darparu.

Coetiroedd ar gyfer Dysgu - *Rhaglen 6: Sgiliau dysgu a sector yn seiliedig ar goetiroedd*

17. Ar hyn o bryd mae fy Nhîm Coetiroedd ar gyfer Dysgu yn paratoi ar gyfer ei gynhadledd flynyddol, "Deng Mlynedd o Ysgol Goedwig yng Nghymru." Fe'i cynhelir yng Nghaerdydd ym mis Hydref a bydd yn gyfle i ddathlu datblygiad yr Ysgol Goedwig yng Nghymru. Bydd y digwyddiad yn cynnwys dewis o ymweliadau maes,

gweithdai a chyfle i rannu sgiliau, a chyflwyniad o'r ymchwil sydd newydd ei gwblhau i fuddion hirdymor yr Ysgol Goedwig. Yn olaf, bydd gan fynychwyr gyfle i drafod cyfeiriad yr Ysgol Goedwig yng Nghymru yn ystod y deng mlynedd nesaf.

DATBLYGU SECTOR COEDWIG CYSTADLEUOL AC INTEGREDIG

Cynllun Busnes Ynni Pren - *Rhaglen 3: Ynni adnewyddadwy*

18. Erbyn hyn mae yna 140 o gynlluniau cofrestredig, gan gynnwys 23 a gafodd eu cymeradwyo ar gyfer grant, â gwerth cyfunol o £542,000. O ran nifer y prosiectau a gafodd eu cymeradwyo, mae Cynllun Busnes Ynni Pren wedi gwireddu'r rhagolygon gwreiddiol, ond o ran gwerth y grantiau a gafodd eu cynnig, nid ydym wedi llwyddo i gyrraedd y targed. Rydym wedi cytuno â Swyddfa Cyllido Ewropeaidd Cymru i ailgyflwyno gwariant a fydd yn adlewyrchu amser arweiniol hirach i rai o'r cynlluniau mwyaf. Bydd y tîm yn canolbwyntio ar ddod â rhai o'r cynlluniau mwyaf i mewn i'r flwyddyn ariannol hon.

Gwerthusiadau Technegol PMG AC SCES – *Rhaglen 8: Hyrwyddo pren*

19. Mae'r Cynllun Grant Marchnata a Phrosesu (PMG) a Chynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi (SCES) yn rhan o Echel 1 y Rhaglen Datblygu Gwledig. Gweinyddir y cynlluniau gan yr Is-adran Datblygu Bwyd, Pysgodfeydd a'r Farchnad o'r Adran Materion Gwledig. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi gwerthuso prosiectau â chyfanswm gwerth o £3.75m, a chyfanswm gwerth grantiau PMG ac SCES o £2m. Cafwyd y rhan fwyaf o'r ceisiadau gan gontractwyr coedwigaeth a oedd yn chwilio am gymorth i brynu peiriannau - cynaeafwyr a pheiriannau cludo mawr. Ymhlith y prosiectau eraill a gafodd eu hasesu mae cyfarpar prosesu coed tân, cyfarpar melinau llifio, estyniad i storfa oer mewn planhigfa goedwig, prosiect i wella'r gadwyn gyflenwi ar gyfer pren o Gymru â gwerth isel a PMG Trosglwyddo Gwybodaeth a fydd yn darparu hyfforddiant wedi'i ariannu i'r sector coedwigaeth, coed a phren. Fel canlyniad i'r gwaith hwn, cafwyd cydweithio agosach ag Is-adrannau eraill yn yr Adran Materion Gwledig.

CAMAU BUSNES

Cyfarfodydd i'r Holl Staff – *Cam busnes 1: Bodlonrwydd staff*

20. Gan adeiladu ar werthusiad o'r ddau Gyfarfod i'r Holl Staff a gynhaliwyd ym mis Mai, mae'r Bwrdd Rheoli wedi cytuno cynnal dau Gyfarfod i'r Holl Staff ym mis Mai 2011.

Buddsoddwyr mewn Pobl – *Cam busnes 1: Bodlonrwydd staff*

21. Cynhaliwyd cyfweliadau Buddsoddwyr mewn Pobl ar draws y Comisiwn Coedwigaeth ym mis Mehefin. Rhoddwyd cyfweliadau i 4% o staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru o bob gradd a disgyblaeth o fewn y sefydliad.

Rhoi'r Gorau i Recriwtio

22. Mae'r staff wedi cael esboniad eglur o oblygiadau rhoi'r gorau i recriwtio yn y gwasanaeth sifil. Ar hyn o bryd mae'r holl recriwtio ac estyniadau i gontractau yn cael eu hadolygu trwy broses achosion busnes, a bydd recriwtio allanol yn cael ei osgoi. Mae'r Cynllun Gweithredu Staffio yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan weithgor sy'n cynnwys aelodau â swyddogaethau gweithredol, polisi, adnoddau dynol ac undebol. Bydd hyn yn darparu map i'r sefydliad ar gyfer symud ymlaen a bydd yn unol â themâu arfaethedig Strategaeth Bobl Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr.

Trefor Owen
Cyfarwyddwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Gorffennaf 2010